OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 870 (Cy.80) (C.20)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Gorchymyn Deddf Plant 2004 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2006

Wedi - - - - 21 Mawrth 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 67(3) a (4) o Ddeddf Plant 2004 (**1**) a chyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol (**2**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Plant 2004 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2006.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Plant 2004.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Y diwrnod penodedig

2.—(1) 1 Medi 2006 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dwyn adran 25 o'r Ddeddf (Cydweithio i wella lles: Cymru) i rym.

(2) 1 Hydref 2006 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dwyn adran 31 o'r Ddeddf (Sefydlu Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant yng Nghymru).

(**1**) 2004 p.31.

(**2**) Yn rhinwedd adran 67(4), cyn gwneud gorchymyn mewn perthynas ag adrannau 25 (4) (a i c) a 31 (3)(a i c), (f) neu (g), rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

D. Elis-Thomas
21 Mawrth 2006 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p. 38.